Plentyn anabl neu oedolion nad ydynt yn ddibynnol anabl sydd angen gofal dros nos

- **Oes gennych chi neu'ch partner ofalwr sy'n aros dros nos yn eich cartref i helpu i ofalu am blentyn anabl neu oedolyn arall sy'n byw gyda chi sy'n anabl?**
- **A ddarperir y gofal dros nos gan ofalwr nad yw'n byw yn eich cartref?**
- **Oes gennych mewn gwirionedd ystafell wely sbâr y mae eich gofalwr yn ei defnyddio dros nos?**

Os ydy'r ateb i'r holl gwestiynau hyn yn gadarnhaol, yna o 1 Ebrill 2017 efallai y bydd y cymorth a gewch gyda'ch rhent yn gallu ystyried hyn.

O fis Ebrill 2017, mae ystafell wely a ddefnyddir gan ofalwr (neu dîm o ofalwyr) nad yw'n byw mewn gwirionedd yn eich cartref ond yn darparu gofal dros nos ar gyfer naill ai blentyn anabl neu oedolyn anabl sy'n byw gyda chi, efallai yn cael ei chaniatáu wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai i'w dalu i chi.

Byddai angen ystyried eich holl amgylchiadau i benderfynu a allwch gael mwy o arian. Bydd hyn yn cynnwys p'un ag oes gan y plentyn neu oedolyn sy'n byw gyda chi'r hawl i rai budd-daliadau anabledd.

Hyd yn oed os nad yw eich Budd-dal Tai yn cynyddu o ganlyniad, mae'n dal yn eich diddordeb i ddweud wrth eich awdurdod lleol os oes gennych trefniadau gofal ar gyfer eich plentyn neu oedolyn nad yw'n ddibynnol sy'n byw gyda chi. Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael cymorth gyda chost ystafell wely ychwanegol a ddefnyddir gan ofalwr (neu dîm o ofalwyr), siaradwch ag ymgynghorydd, neu cysylltwch â'r adran fudd-daliadau yn:

Adran Budd-dal Tai o
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 01492 576491

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL